



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mawrth, 22 Chwefror 2022 am 2.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

J A Hale
L V Walton

Y Cyngorydd(wyr)

T J Hennegan
T M White

Y Cyngorydd(wyr)

Y V Jardine

Aelodau

Cyfetholedig(wyr)

Y V Jardine

Swyddog(ion)

Adrian Chard

Sally-Ann Evans

Adam Hill

Kate Jones

Joanne Portwood

Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol

Cyfreithiwr Arweiniol

Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau

Swyddog y Gwasanaethau Democraidd

Swyddog Strategaeth a Pholisi

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): D W Helliwell, M Jones, P B Smith a/ac L J Tyler-Lloyd

25 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

26 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

27 Diweddariad ar Strategaeth y Gweithlu.

Darparodd y Rheolwr AD Strategol a Datblygu Sefydliadol ddiweddariad ar Strategaeth y Gweithlu. Amlygodd y canlynol:-

- Pedair thema allweddol – Arwain a Rheoli, Gweithlu sy'n Addas i'r Dyfodol, Bod yn Gyflogwr Delfrydol a Lles a Chynhwysiad y Gweithlu gyda naw maes gwaelodol a gweithgareddau allweddol wedi'u nodi.
- Ymgynghoriadau a gynhaliwyd - Arolwg staff, Grwpiau Ffocws Gweithwyr, Undebau Llafur, Tîm Rheoli Corfforaethol a Phennaeth Grwpiau Ffocws Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- Dogfen i adlewyrchu gweithlu'r dyfodol
- Roedd nifer o swyddi wedi'u hysbysebu, a ariannwyd drwy'r Gronfa Adferiad i gynorthwyo gyda chyflogau a graddfeydd, recriwtio, systemau ansawdd a chynlluniau ac ymddygiadau sefydliadol.
- Roedd datblygu fframwaith hyfforddi ar y gweill
- Lansio Grŵp Cydraddoldeb y Gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawnrwydd data ar nodweddion gwarchoddedig yn gyntaf
- Ail-lansio darpariaeth sgiliau iaith Gymraeg
- Roedd metrigau a mesuriadau perfformiad wedi'u cynnwys yn y Strategaeth.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Cylch Gwaith/Cwmpas Grŵp Cydraddoldeb y Gweithlu – casglu data, hyfforddiant cydraddoldeb ac arferion recriwtio
- Fforymau eraill sydd ar gael fel yr Hwb Syniadau, Grŵp Gweithlu Corfforaethol a Grŵp Arweinyddiaeth Dewch i Siarad
- Ymgysylltu ag ysgolion – datblygu arweinyddiaeth, cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a chadw
- Llyfr Stori/Llawlyfr Staff
- Datblygu gyrfa – partneriaeth hyfforddi gyda Choleg Gŵyr
- Lefelau staffio – i alluogi staff i fanteisio ar hyfforddiant
- Arbenigwr recriwtio – adnodd i gyflawni ymgysylltiad – dangosyddion perfformiad allweddol
- Cyfarfodydd 1-1/ arfarniadau staff - mwy o ffocws ar y gweithiwr
- Prentisiaethau – cysylltiadau â'r Fargen Ddinesig
- Cronfa Ddysgu Undebau Cymru

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

28 Adroddiad Blynyddol 2021/22.

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol 2021/22.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Strategaeth a Pholisi am ei gwaith dros y flwyddyn ddinesig yn ogystal â Swyddogion eraill a oedd wedi cefnogi'r Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Penderfynwyd y byddai'r adroddiad blynyddol yn cael ei nodi.

29 Cynllun Gwaith 2021/22.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2021/2022 ac awgrymodd y dylid trefnu i drafod yr eitemau canlynol yn y cyfarfod nesaf ar 29 Mawrth 2022:-

- Llyfr gwaith staff
- Cydgynhyrchu

Penderfynwyd nodi Cynllun Gwaith 2021-22 yn unol â hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.55 pm

Cadeirydd